COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mercher 14 Mehefin 2000
**Amser:** 10:45 am
**Lleoliad:** Ystafell y Dirprwy Lywydd (A3.10)

**Yn bresennol:** Y Dirprwy Lywydd, Cadeirydd
Y Trefnydd
Ieuan Wyn Jones, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Jenny Randerson, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol
John Lloyd, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Peter Jones, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
Sherry Rees, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Personol y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Personol y Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau

Barbara Wilson, Dirprwy Glerc y Cynulliad.

## 2. Cofnodion y cyfarfod ar 24 Mai 2000 (BC153-00)

2.1 Cytunwyd ar y cofnodion.

## 3. Materion yn codi

3.1 **Paragraff 4.1 -** Nodwyd bod Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau, yn dilyn penderfyniad y Dirprwy Lywydd ynghylch ymdrin. Roedd cyfreithwyr y Pwyllgor hwnnw wedi sylwi ar anghysondeb a oedd yn awgrymu nad oedd y ddeddfwriaeth sylfaenol alluogi yn darparu ar gyfer y system apelio yn yr is-ddeddfwriaeth fel y'i drafftiwyd. Gallai diddymu'r system apelio o'r Gorchymyn drafft fynd yn groes i ddeddfwriaeth iawnderau dynol ond byddai bwrw ymlaen â'r Gorchymyn fel y'i drafftiwyd yn achosi i'r Gorchymyn drafft fod heb awdurdod. Nodwyd bod y gorchymyn eisoes wedi'i wneud yn yr Alban a Lloegr a'i fod yn cynnwys y mecanwaith apelio, a bod Clerc y Pwyllgor Deddfau wedi bod mewn cysylltiad â'r Llywydd ynghylch y mater. Nodwyd bod y Swyddfa Gyflwyno wedi dyfarnu bod memorandwm cywiriadau y Weithrediaeth, a oedd yn tynnu sylw at y newidiadau a wnaed ers i'r Gorchymyn gael ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfau, yn annerbyniol. Roedd yn debygol, felly, y byddai'r cynnig i drafod egwyddor y gorchymyn yn mynd yn ei flaen ar 20 Mehefin â'r cynnig i drafod egwyddor y gorchymyn yn dilyn er mwyn caniatáu i'r Memorandwm Cywiriadau gael ei ailgyflwyno. Gofynnwyd i Marion Stapleton wneud copïau i'r Rheolwyr Busnes o negeseuon e-bost a gyfnewidiwyd ynghylch cynnydd a wnaed yn y mater hwn. **Gweithredu: Marion Stapleton**

## 4. Is-ddeddfwriaeth

### Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC162-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Sue Essex, Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Cynghorodd aelodau o'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn Drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn ymlaen i bwyllgor pwnc.**

### Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC171-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Cynghorodd aelodau'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn ymlaen i bwyllgor pwnc.**

### Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC172-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Cynghorodd aelodau o'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn ymlaen i bwyllgor pwnc.**

### Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2000

4.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC173-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Cynghorodd aelodau o'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn ymlaen i bwyllgor pwnc.**

### Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Treuliau Achlysurol) (Diwygio) (Cymru) 2000

4.5  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC174-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod.  Cynghorodd aelodau o'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor.  Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn.  **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn ymlaen i bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2000**

4.6  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC175-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Rosemary Butler, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod.  Cynghorodd aelodau o'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor.  Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei gyhoeddi ym musnes y prynhawn.  **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn ymlaen i bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Lliwiau Mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2000**

4.7  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC176-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod.  Cynghorodd aelodau o'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor.  Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei ddatgan ym musnes y prynhawn. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn ymlaen i bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000**

4.8  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC177-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod.  Cynghorodd aelodau o'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor.  Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei ddatgan ym musnes y prynhawn. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn ymlaen i bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd (Labelu) (Cymru) 2000**

4.9  Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC178-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod.  Cynghorodd aelodau o'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor.  Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei ddatgan ym musnes y prynhawn. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn ymlaen i bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru a Lloegr) 2000**

4.10 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC179-00 a oedd yn darparu gwybodaeth ynghylch y Gorchymyn uchod oddi wrth Christine Gwyther, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth. Nodwyd mai Gorchymyn Rhan 2 oedd y Gorchymyn a'i fod wedi cael ei gyfeirio ymlaen at y Pwyllgor Busnes, er gwybodaeth. Nid oedd angen penderfyniad ynghylch ymdrin ag ef, felly.

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) Cymru, Diwygio (Rhif 2) 2000**

4.11 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC180-00 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Hutt, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Cynghorodd aelodau o'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â chynnig Ysgrifennydd y Cynulliad i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft i'r Pwyllgor. Byddai'n gwneud ei phenderfyniad ar ddiwedd y cyfarfod fel y gellid ei ddatgan ym musnes y prynhawn. **Penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchymyn ymlaen i bwyllgor pwnc.**

4.12 Cynghorodd Sherry Rees bod y grŵp gwaith a oedd yn ystyried Rheol Sefydlog 22 yn awr wedi cwblhau ei waith a byddai papur yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor Busnes ymhen pythefnos gydag awgrymiadau ar gyfer newidiadau. Gofynnodd y Pwyllgor a ellid trafod y gwelliant arfaethedig i gyflwyno'r drefn gyflym yn ystod y Pwyllgor ar y dydd Mawrth canlynol fel bod modd i'r newid gael ei drafod yn y cyfarfod llawn cyn i'r gorchmynion cyntaf gael eu cymryd o dan y drefn newydd. **Gweithredu: Sherry Rees i baratoi papur ar y drefn gyflym ar gyfer Pwyllgor ddydd Mawrth nesaf ac ar Reol Sefydlog 22 yn ei chyfanrwydd ar gyfer y Pwyllgor ar 28 Mehefin. Byddai nodyn yn cael ei anfon i'r holl Aelodau gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet ddydd Mawrth nesaf yn cadarnhau pa orchmynion a fyddai'n dilyn y drefn newydd. Byddent yn cael eu nodi ar y Datganiad Busnes, hefyd.**

**5. Gweithdrefnau Is-ddeddfwriaeth, etc**

5.1 Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddent yn ystyried gyda'u grwpiau y gorchmynion drafft hynny yr awgrymid y dylent fod yn dilyn trefn gyflym newydd. Byddai rhestr o'r gorchmynion hynny (sydd i gael eu mabwysiadu yn y cyfarfod llawn heb gynnal dadl yn eu cylch) yn cael ei pharatoi ar gyfer Pwyllgor Busnes dydd Mawrth. Pe bai unrhyw un o'r Aelodau'n penderfynu yr hoffent drafod gorchymyn penodol, byddai'n dilyn y drefn safonol yn hytrach, wedyn. Fodd bynnag, nodwyd bod yr amser ar gyfer cyfarfodydd llawn cyn yr haf yn brin. **Gweithredu: Craig Stephenson i baratoi rhestr a sicrhau bod agendâu'r dyfodol yn dangos argymhellion Ysgrifennydd y Cynulliad ynghylch ymdrin.**

5.2 Cynghorodd Sherry Rees bod y Grŵp Gwaith ar Is-ddeddfwriaeth wedi bod yn edrych i mewn i newid y Rheolau Sefydlog er mwyn iddynt gynnwys y drefn gyflym. Byddai cynigion yn cael eu cyflwyno yn y Pwyllgor Busnes nesaf ar is-ddeddfwriaeth ymhen pythefnos. Yn y cyfamser, cytunwyd y byddai Marion Stapleton yn anfon e-bost at yr holl Aelodau i'w hysbysu o'r Gorchmynion i ddilyn y drefn frys ynghyd â nodyn cefndir ar bob un o'r gorchmynion. **Gweithredu: Sherry Rees i gyflwyno cynigion i wella'r rheolau sefydlog; Marion Stapleton i gysylltu â'r holl Aelodau.**

5.3 Nododd y Pwyllgor y ddau dabl a oedd yn rhestru is-ddeddfwriaeth a oedd i ddod gerbron y Cynulliad cyn wythnosau etholaeth yr haf (BC182-00) a'r rhai na fyddai'n debyg o ymddangos cyn wythnosau etholaeth yr haf (BC181-00). Cytunwyd y dylai Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (OCG) nodi'r penderfyniad ymdrin fel y penderfynid yn ei gylch gan y Dirprwy Lywydd ar gyfer y gorchmynion hynny a oedd eisoes wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes. Roedd Nerys Arch, OCG, hefyd yn gobeithio darparu i'r Pwyllgor ar gyfer eu cyfarfod nesaf restr o Orchmynion drafft a fyddai'n debygol o ddilyn y drefn Weithredol yn ystod wythnosau etholaeth yr haf. **Gweithredu: Nerys Arch.**

**6. Unrhyw fater arall**

6.1 Dosbarthodd Marion Stapleton dabl o ddeddfwriaeth sylfaenol a allai fod â goblygiadau ar gyfer Cymru. Er nad oedd unrhyw is-ddeddfwriaeth wedi cael ei drafftio o ganlyniad i'r rhain, roedd wedi pasio'r wybodaeth hon ymlaen er mwyn galluogi'r Rheolwyr Busnes i roi sylw i orchmynion yr hoffent wneud sylwadau yn eu cylch neu ddylanwadu arnynt, o bosibl, yn ystod y cyfnod ymgynghori. Awgrymodd Ieuan Wyn Jones y gellid ehangu'r rhestr i gynnwys y nifer arfaethedig o offerynnau statudol a oedd yn codi o bob un o'r Mesurau a'r Deddfau a restrwyd. **Gweithredu: Marion Stapleton ac OCG i ehangu'r rhestr.**

6.2 Dosbarthwyd copïau o adroddiad terfynol y Grŵp Gwaith ar Is-ddeddfwriaeth i'r Pwyllgor er gwybodaeth cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes ar 20 Mehefin.

**Ysgrifenyddiaeth y Cabinet**